

## Cofion

Anfonwn ein cofion yr wythnos hon at Wil Jones (Llansannan) dreuliodd ychydig amser yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd i'w arddwrn ddechrau'r wythnos. Gwellhad buan iawn i ti Wil! Cofiw'n hefyd am John H. Williams (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari a gweddiwn y bydd yn parhau i adnabod daioni Duw yn ei amgylchynu ac i gryfhau ychydig bach mwy bob dydd. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd hefyd a chyflwynwn hwythau i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

## Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- **OEDFA'R FRO** – Ni chynhelir Oedfa'r Fro nos Sul, Gorffennaf 30ain, ond yn hytrach, bwriadwn ymuno hefo'r gynulleidfa yng Nghapel Caersalem, Caernarfon mewn oedfa am 5.30 yr hwyr dan arweiniad Mr Arwel Jones sy'n un o arweinyddion yr eglwys. Mae Capel Caersalem wedi ei weddnewid yn ddiweddar ac wedi ei leoli ar Stryd Garnon, Caernarfon LL55 2RB. (Holwch Mair ymlaen llaw i gael map a chyfarwyddiadau o ran parcio.) Croeso i bawb! Os oes unrhyw un eisiau lifft neu os oes gennych chi le i roi lifft i rywun arall, plis gadewch i Mair wybod.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - **Cwrs Ieuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
  - **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
  - **Souled Out (15 oed +):** Awst 19-24

*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL A'R FEDAL GEE** dydd Iau, Medi 28ain yn Eglwys Emaus, Bangor am 3.00.
- **DATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG** – Sul arbennig i'r Fro yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd dydd Sul, Hydref 1af. Oedfa'r bore am 10.30 i'r teulu cyfan ac oedfa'r hwyr am 6.00. Mwy o fanylion i ddilyn.



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16<sup>eg</sup> Gorffennaf 2017

Darlleniad y Dydd

1 Corinthiaid 13: 4-7  
(BCND tud.191 / BCN tud.174)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

'Molwch yr Arglwydd. Da yw canu mawl i'n Duw ni, oherwydd hyfryd a gweddus yw mawl.' Dyna'r ffordd y mae'r Salmydd yn dechrau Salm 147 ac maent yn eiriau i'n hannog ninnau hefyd i roi clod i Dduw gyda'n gilydd yn ein hoedfaon heddiw. Meddylwch am y peth – mae rhoi mawl i'r Arglwydd ardderchog yn gwbl addas oherwydd mai dyna mae'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân yn ei haeddu. Diolchwn fod Duw yn ein cynorthwyo yn ein gwendid a gweddiwn ar i'r Ysbryd Glân weithio ynom i'n harwain i foli'r Arglwydd â'n holl galon.

Dwi am fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb ohonoch fu'n rhan o Ddiwrnod Gweddi Bro Aled ddydd Mercher. Cawsom amser hyfryd yn ceisio Duw gyda'n gilydd gan gyflwyno'n hardal a'n gwlad i Dduw. Hyd yn oed os na fu hi'n bosib i chi ddod atom, diolch am y ceisiadau gweddi ac am eich gweddiâu o bell! Bu'n fendith fawr myfyrio ar wahanol rannau o'r Beibl a chael cyflwyno'n deisfyfiadau i Dduw yn yr hyder y gall Ef wneud llawer mwy na'r hyn yr ydym yn ei ofyn neu hyd yn oed yn ei ddychmygu! (Effesiaid 3:20)

Rydym am ddiolch hefyd fod Sarah wedi dychwelyd yn ddiogel o Ethiopia ers ychydig o wythnosau, a chawn gyfle i gael clywed ychydig am ei thaith a gwaith gwych Tearfund yn Ethiopia yn oedfa'r fro heno lle y byddwn hefyd yn croesawu Rhun Murphy atom i bregethu. Cofiwch fod croeso cynnes i bawb ohonoch fel arfer.

Dwi'n siŵr fod darlleniad y dydd heddiw'n un cyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom oherwydd y disgrifiad cofiadwy a gawn ynddo. Ond rhaid i ni beidio bod yn sentimental a'i weld fel llenyddiaeth gelfydd yn unig. Mae Paul yn darlunio cariad yn y ffordd hon er mwyn atgoffa Cristnogion Corinth: dyma'r hyn sydd i fod yn amlwg yn eich plith chi! Nid doniau ysbrydol a galluoedd ddylai gyfrif fwyaf ymhlith pobl Dduw ond cariad. Cofiw'n nad teimlad anwadal yw cariad yn y Beibl ond gweithredu er daioni eraill fel y gwelwyd ar ei fwyaf clir ym marwolaeth Iesu Grist dros bechaduriaid. Felly wrth i ni ddarllen y portread hwn o natur cariad, nid yw'n syndod y cawn ein hatgoffa o gymeriad Iesu – yr un sy'n amyneddgar, yn gymwynasgar, ac yn cydlawenhau â'r gwirionedd. Ac os awn ymlaen i fesur ein bywydau ein hunain yn erbyn disgrifiad Paul o gariad byddwn yn sicr o syrthio'n brin. Er hyn, cyfleu'r cariad y mae'r Cristion wedi ei dderbyn eisoes trwy ei berthynas ag Iesu Grist y mae Paul ac felly ni ddylem anobeithio. Ar sail y cariad dwyfol hwnnw, ac yng ngrym yr Ysbryd a ddaeth i ni yng Nghrist yr ydym i ymdrechu i garu'n gilydd trwy'r amser. 'Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.' (1 Ioan 4:19).

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled 

*Rhodri*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Mawrth – 18<sup>fed</sup> ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Mercher – 19<sup>eg</sup> ➤ **Taith Gerdded i'r Ofalaeth** – yn ardal Henllan. Cychwyn o fuarth Capel Henllan am 6.30. Os na fydd y tywydd yn ffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.
- Gwener – 21<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa fedydd yn Llansannan am 10.00 pryd y bydd Eryl ac Elliw Williams yn cyflwyno Rhys Glyn a Llio Glyn i gael eu bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 16<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00, a Chyfarfod Gweddi fydd yng Nghefn Berain hefyd am 10.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg.

### Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Numeri 6:22-27 (BCND tud.127 / BCN tud.116)

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.